



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

**VIOLENCE AGAINST WOMEN,
DOMESTIC ABUSE AND SEXUAL
VIOLENCE PREVENTION FOR
CHILDREN AND YOUNG PEOPLE**

**A briefing on Universal Primary Prevention for
Children and Young People**

www.welshwomensaid.org.uk



Cynnwys

Cymorth i Ferched Cymru	1
Beth yw Atal Sylfaenol Cyffredinol	1
Effaith VAWDASV ar blant a phobl ifanc	2
Cyd-destun Polisi Cymru	3
Y Dull Addysg Gyfan yng Nghymru	5
Cam-drin mewn perthynas yn yr ardegau	6
Beth mae pobl ifanc yn ei ddweud	7
Casgliad ac argymhellion	11
Arfer addawol atal sylfaenol cyffredinol sydd ar gael yng Nghymru	11

Fel y sefydliad ymbarél ar gyfer gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod yng Nghymru, hoffai Cymorth i Ferched Cymru unwaith eto ddiolch yn ddiffuant i leisiau plant a phobl ifanc, goroeswyr, gwasanaethau arbenigol a sefydliadau eraill, sydd wedi llywio'r broses o greu'r ddogfen hon.

Am Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod. Rydym yn ffederasiwn o sefydliadau arbenigol yng Nghymru (yn gweithio fel rhan o rwydwaith y DU o wasanaethau) sy'n darparu gwasanaethau sy'n achub bywyd i oroeswyr trais a cham-drin - menywod, dynion, plant, teuluoedd - ac yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ataliol arloesol mewn cymunedau lleol.

Rydym wedi bod ar flaen y gad o ran llunio ymatebion ac arferion cymunedol cydgyssylltiedig yng Nghymru ers cael ein sefydlu yn 1978. Gwnawn hyn drwy ymgyrchu dros newid a darparu cyngor, ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflawni gwelliannau polisi a gwasanaeth i oroeswyr, teuluoedd a chymunedau.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cynhyrchu cyfres o [Bapurau Atal](#) sy'n rhannu ymchwil, arloesi ac arfer addawol ynghylch atal trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r papurau hyn yn ffurfio corff o dystiolaeth fydd yn cael ei ddsbarthu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, cyllidwyr, comisiynwyr, gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod a'r sector cyhoeddus, ymhlith eraill.

Bydd y briffiad hwn, yr ail yn y gyfres, yn canolbwyntio ar Atal Sylfaenol Cyffredinol (UPP), gan amlinellu sut mae'r dull hwn yn edrych, sut mae'n cyfrannu at atal a'r nod tymor hir o gael gwared ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) a rhannu rhywfaint o arfer addawol gan aelod-wasanaethau arbenigol Cymorth i Ferched Cymru.

Mae trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn gyffredin ym mhob rhan o Gymru, yn ogystal ag ar draws y DU a'r byd. Felly mae'n hanfodol ymyrryd i geisio lleihau'r cyffredinolrwydd hwn ac atal VAWDASV rhag digwydd yn y lle cyntaf. Yn allweddol i atal mae rhyngweithio cynnar ac addysg i sicrhau bod plant a phobl ifanc, fel y genhedlaeth nesaf, yn meddu ar y wybodaeth i allu ffurfio perthnasoedd iach, hapus, parchus.

Beth yw atal sylfaenol cyffredinol?

Mae atal sylfaenol cyffredinol yn ddull penodol sy'n targedu poblogaeth gyfan, fel cyfanrwydd, i gyflwyno negeseuon i addysgu a herio agweddau a chanfyddiadau, heb unrhyw wybodaeth ymlaen llaw am brofiad y gynulleidfa am y pwnc. Gyda VAWDASV, enghraifft o atal sylfaenol cyffredinol fyddai addysg rhyw a pherthnasoedd (SRE) mewn ysgolion neu raglenni perthnasoedd iach.

Mae atal sylfaenol cyffredinol drwy raglenni mewn ysgolion yn cynnig trefn i ddarparu'r wybodaeth hon o fewn strwythurau addysg, gan gyrraedd cynulleidfa fawr a rhoi hyder wrth gyflwyno neges yn eang. Mae gwasanaethau atal sylfaenol cyffredinol wedi'u "cynllunio i gyfrannu at ddatblygiad plant, yn aml gyda'r nod sylfaenol o leihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac iechyd."¹

Er bod tystiolaeth yn gyfyngedig o hyd ynghylch effeithiolrwydd y rhaglenni hyn, yn bennaf oherwydd diffyg buddsoddi mewn gwasanaethau a gwerthuso, mae nifer o fodolau gwaith creadigol addawol yn cael eu cyflwyno ledled y DU sydd wedi llwyddo ac y gellid eu defnyddio fel arfer addawol.²

Effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar blant a phobl ifanc

Gall VAWG, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol aros yn gudd i blant sydd yn ei brofi, ac yn aml ni fydd unrhyw un yn sylwi am flynyddoedd lawer. Gall eu hymddygiad a thrawma gael eu camddeall a'u priodoli ar gam i ffactorau eraill megis iechyd meddwl, anghenion dysgu ychwanegol, neu anhwylderau personoliaeth.

Gall VAWG, a cham-drin domestig a thrais rhywiol yn arbennig fod yn anodd ei nodi ymysg plant sydd yn ei brofi, mae natur gudd y cam-drin yn golygu'n aml ei fod yn digwydd yn y cartref, neu i ffwrdd oddi wrth eraill, a gall cyflawnwyr cam-drin ymddwyn yn wahanol iawn o amgylch eraill i leihau'r amheuaeth.³

Efallai na fydd plant a phobl ifanc am ddweud wrth weithwyr proffesiynol am y cam-drin maen nhw'n ei dioddef am eu bod yn ofni unrhyw ôl-ffeithiau. Mae'n debyg iawn hefyd eu bod wedi cael eu rhybuddio i beidio â dweud wrth unrhyw un am yr hyn sydd yn digwydd neu wedi'u paratoi i amddiffyn y sawl sy'n eu cam-drin. Hefyd, efallai na fyddant yn ymwybodol y gallant siarad gyda phobl am yr hyn sy'n digwydd iddyn nhw, neu efallai eu bod yn ofni na fydd neb yn eu credu. Gall hyn achosi ymddieithrio o ryngweithio sy'n peri tynnu'n ôl, neu gall plant a phobl ifanc arddangos ymddygiad heriol. Gall fod yn anodd ymateb i'r ddau fath hwn o ymddygiad mewn lleoliad addysg.⁴

Yn aml, mae plant a phobl ifanc yn cael eu hanghofio fel dioddefwyr wrth ystyried cam-drin domestig. Mae ystadegau'n dangos bod 1 o bob 5 plentyn wedi'i amlygu i gam-drin

¹ Darlington. I. 2006 "What are universal provision, prevention, early intervention, treatments and social prevention" Common Language Training Pack

<http://commonlanguage.org.uk/source%20files/lectures/UP,P,E,I,I.pdf>

² EVAW, 'A different world is possible' 2011. http://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/wp-content/uploads/a_different_world_is_possible_report_email_version.pdf

³ <https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/child-abuse-and-neglect/domestic-abuse/signs-symptoms-effects/>

⁴ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/182095/DFE-00108-2011-Childrens_Needs_Parenting_Capacity.pdf

domestig yn y DU⁵ ac mae 130,000 o blant a phobl ifanc yn byw gyda risg uchel o gam-drin domestig.⁶ Mae ymchwiliad yn dangos bod cam-drin domestig yn ffactor mewn dros hanner yr Adolygiadau Achos Difrifol a gynhelir.⁷

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn casglu data am blant sy'n manteisio ar ein haelod-wasanaethau arbenigol ar ôl iddynt ffoi rhag cam-drin domestig a hefyd pobl ifanc 16-24 mlwydd oed sy'n manteisio ar wasanaethau yn eu hawl eu hunain. Mae'r ystadegau mwyaf diweddar gan 27 o wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru yn dangos bod 1,221 o blant yn byw mewn llety lloches gyda'u rhiant yn 2016/17⁸ ac er bod y nifer hwnnw'n uchel, mae nifer sylweddol uwch o blant yn parhau i fyw gyda cham-drin domestig yn eu cartref nad ydynt wedi gallu ffoi eto i amgylchedd cartref mwy diogel.

Cyd-destun polisi Cymru

Mae cydberthynas rhwng atal VAWDASV a hyrwyddo lles ac iechyd cyhoeddus ehangach. Mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i godi proffil y cysyniad bod profiadau plentyndod niweidiol (ACEs) yn cael effeithiau tymor hir ar les a datblygiad i fywyd fel oedolyn. Amlygodd ymchwiliad ddiweddar i ACEs yng Nghymru y gallai dioddef niwed yn ystod plentyndod, gan gynnwys trais a cham-drin, effeithio ar iechyd a lles yn y dyfodol.⁹ Yn gyffredinol, gall amlygiad i drais yn ystod plentyndod gael effaith negyddol ar gyflawniad ysgol a rhagolygon economaidd fel oedolyn; iechyd meddwl a gwydnwch; iechyd rhywiol; iechyd corfforol a'r tebygolrwydd cynyddol o feddu ar fecanweithiau ymdopi negyddol.

Bwriad Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y cyfeirir ati fel y Ddeddf o hyd ymlaen) oedd sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys byrddau iechyd, yn *"canolbwyntio ar atal VAWDASV, amddiffyn dioddefwyr a chefnogi'r rhai sy'n profi ei effaith"*¹⁰. Mae hyn hefyd yn berthnasol yn y sector addysg, a rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu strategaeth o ran sut y byddant yn gweithio tuag at y tri nod o atal VAWDASV, yn ogystal ag amddiffyn a chefnogi dioddefwyr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi ei bod yn bwriadu gosod dyletswyddau pellach ar y sector addysg drwy fynnu fod gwaith ataliol o amgylch VAWDASV, ac SRE iach a pharchus yn cael eu haddysgu drwy ddull yn seiliedig ar hawliau yn cael ei wneud mewn ysgolion. Pan fydd awdurdodau lleol yn datblygu eu strategaethau VAWDASV lleol a ragnodwyd o dan y

⁵ <https://www.nspcc.org.uk/services-and-resources/research-and-resources/pre-2013/child-abuse-and-neglect-in-the-uk-today/>

⁶ http://safelives.org.uk/sites/default/files/resources/A_Place_of_greater_safety.pdf

⁷ https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/533826/Triennial_Analysis_of_SCRs_2011-2014_-_Pathways_to_harm_and_protection.pdf

⁸ <http://www.welshwomensaid.org.uk/annual-reports/2016-17/>

⁹ Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod Cymru (ACE): Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod a'i effaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ym mhoblogaeth oedolion Cymru', Ymddiriedolaeth y GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2015.

¹⁰ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld10514/sub-ld10514-e.pdf>

Ddeddf, mae'n nodi y dylai addysg fod yn nodwedd gref yn y ffordd mae'n bodloni ei gofynion¹¹.

Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd ganllawiau statudol yn amlinellu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar VAWDASV.¹² Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion gwblhau hyfforddiant i sicrhau eu bod yn darparu ymateb effeithiol i'r rheini sy'n profi VAWDASV, elfen o ddull ysgol gyfan.

Yn 2017, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Estyn gynnal adolygiad o ansawdd y ddarpariaeth addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion yng Nghymru. Bwriad yr adolygiad hwn oedd cefnogi gweithrediad y Ddeddf, tra'n bwrw ymlaen gydag argymhellion adroddiad adolygiad cwricwlwm yr Athro Donaldson '*Dyfodol Llwyddiannus*', a gyhoeddwyd yn 2015.¹³ Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru i ystyried asesiadau a threfniadau cwricwlwm newydd yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn hyrwyddo 6 maes dysgu a phrofiad newydd: Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Llesiant, Y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yn gyffredinol, roedd prif ganfyddiadau adolygiad Estyn o addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion yng Nghymru fel a ganlyn:

- Mae nifer o ysgolion ledled Cymru yn gwneud gwaith da mewn perthynas â pherthnasoedd iach a'r cwricwlwm SRE, fodd bynnag, roedd cyswllt yn amrywio'n fawr ac ychydig o bwyslais a roddwyd arno. Yn aml fel diwrnod â thema neu un gwasanaeth yma ac acw, nad ydynt yn rhoi cyfle i ddisgyblion archwilio'r pwnc yn ddigonol.
- Er bod llawer o ysgolion yn dysgu am gam-drin domestig, ychydig iawn oedd yn dysgu am drais yn erbyn menywod, ac roedd rhai nad oeddent yn ystyried hwn yn flaenoriaeth uchel. Teimlwyd nad oedd yr ysgolion hyn yn paratoi disgyblion yn ddigon da i fyw mewn cymdeithas amrywiol.
- Roedd llawer o ysgolion yn defnyddio asiantaethau arbenigol i gyflwyno'r sesiynau, sydd hefyd yn gallu cynnig amrywiaeth eang o gefnogaeth, gan gynnwys gwersi priodol i oedran a hyfforddiant ar gyfer staff. Mae'r cysylltiadau hyn wedi galluogi ysgolion i sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei gynnig i bobl ifanc sy'n profi problemau gyda pherthnasoedd a cham-drin.
- Roedd ysgolion oedd yn dangos arferion gorau yn integreiddio archwilio perthnasoedd iach ar draws y cwricwlwm.
- Ar y cyfan, roedd cefnogaeth lawn i gynnwys addysg ar berthnasoedd iach fel rhan o faes dysgu iechyd a lles yn y cwricwlwm diwygiedig. Er bod ysgolion yn awyddus i ymgymryd

¹¹ Ibid

¹² <http://www.assembly.wales/laid%20documents/sub-ld10514/sub-ld10514-e.pdf>

¹³ Donaldson. G. '*Dyfodol Llwyddiannus - Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*' 2015

â hyn, mae diffyg ymwybyddiaeth gyson ynghylch polisi'r llywodraeth a'r pecynnau cymorth sydd ar gael iddynt i gynorthwyo gyda hyn.

Y Dull Addysg Gyfan yng Nghymru

Yng Nghymru, elfen allweddol ar waith Llywodraeth Cymru ar VAWDASV yw'r ffocws ar integreiddio perthnasoedd iach ac ymwybyddiaeth i'r lleoliad addysg. Nid yn unig fel gwersi unigol ad hoc, ond ymgorffori ffocws ysgol gyfan ar draws y sefydliad a'r gymuned sy'n ei amgylchynu er mwyn creu newid diwylliant hirdymor ar draws ysgolion a sefydliadau addysg bellach (SABau).¹⁴

Mae'r *'Canllaw Arfer Da: Dull Addysg Gyfan i roi diwedd ar VAWDASV'* a ysgrifennwyd gan Lywodraeth Cymru a Cymorth i Ferched Cymru yn rhannu'r dull addysg gyfan yn 9 egwyddor allweddol i gynorthwyo ysgolion a lleoliadau addysg drwy'r broses o fabwysiadu'r dull.¹⁵ Mae hyn yn cyd-fynd â champau gweithredu a argymhellir ar gyfer unigolion sy'n cynnwys hyfforddiant.

Isod ceir dadansoddiad o'r 9 egwyddor allweddol mewn dull addysg gyfan i VAWDASV:

1. Mae plant a phobl ifanc yn dysgu am VAWDASV.
2. Mae staff yn dysgu am VAWDASV.
3. Mae rhieni, rhoddwyr gofal a'r teulu yn dysgu am VAWDASV.
4. Mae systemau monitro a gwerthuso ar waith i fesur effaith y gwaith hwn.
5. Mae mesurau ar waith i gefnogi pobl sy'n dioddef mathau o VAWDASV.
6. Cyfranogiad gweithredol gan blant a phobl ifanc, staff a rhieni/rhoddwyr gofal i atal VAWDASV.
7. Cymryd camau i atal VAWDASV yn y gymuned ehangach.
8. Gweithio mewn partneriaeth gydag arbenigwyr lleol perthnasol.
9. Ymgorffori rhaglen atal gynhwysfawr.

Bydd mabwysiadu'r egwyddorion ar y *Canllaw Arfer Da* yn ganolog yng Nghymru ar gyfer rhaglenni atal sylfaenol cyffredinol. Bydd ymgorffori mesurau ataliol mewn agenda a diwylliant ysgolion yn sicrhau cyflwyno a darparu'n gyson, gan gyrraedd pawb sy'n ymwneud ag addysg. Mae hyn yn cynnwys yr holl bobl ifanc, athrawon, staff gweinyddol, staff arlwyo ac ati.

Mae dysgu am berthnasoedd iach ar draws y system addysg gyfan yn hanfodol er mwyn codi ymwybyddiaeth o VAWDASV a'i effeithiau ar blant a phobl ifanc, yn ogystal â hyrwyddo sefydliadau sy'n darparu amrywiaeth eang o gefnogaeth arbenigol i'r rheini sydd ei angen.

¹⁴ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/pdfs/anaw_20150003_en.pdf

¹⁵ <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-en.pdf>

Yn ogystal â phwysigrwydd codi ymwybyddiaeth i ddileu VAWDASV yn y dyfodol, mae hefyd yn hawl i blentyn gael ei amddiffyn rhag unrhyw niwed ac i fyw heb ofn. Nodir hyn yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn¹⁶ lle mae'r erthyglau canlynol yn ymwneud yn uniongyrchol gydag amddiffyn plant:

- Dywed Erthygl 19 fod gan blant *“yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag cael eu niweidio neu eu trin yn wael”* ac felly dylid eu hamddiffyn rhag pob math o drais, cam-drin ac esgeulustod, a thriniaeth wael gan eu rhieni ac unrhyw arall sy'n gofalu amdanynt.
- Dywed Erthygl 24 fod gan bob plentyn *“yr hawl i'r iechyd gorau posibl a gofal a gwybodaeth feddygol”* gan gynnwys addysg ar iechyd a lles.
- Dywed Erthygl 39 fod gan unrhyw blentyn *“yr hawl i help os ydynt wedi cael eu niweidio, eu hesgeuluso neu eu trin yn wael”* i helpu iddynt wella.
- Dywed Erthygl 42 y dylai *“yr holl oedolion a phlant wybod am y confensiwn”* gan nodi sut y dylai llywodraethau weithio i sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn gwybod beth yw eu hawliau¹⁷.

Yn 2004, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y ddogfen bolisi sy'n canolbwyntio ar y CCUHP, *'Hawl i Weithredu'*.¹⁸ Mae hyn yn trosi erthyglau'r CCUHP i 7 Nod Craidd ar gyfer plant yng Nghymru. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys y dylai plant a phobl ifanc gael amrywiaeth o gyfleoedd addysg a chyfleoedd dysgu a mwynhau'r iechyd gorau posibl a byw heb gamdriniaeth, erledigaeth ac ecsbloetio.

Mae atal sylfaenol cyffredinol yn fecanwaith sy'n galluogi i blant a phobl ifanc ymarfer yr hawliau uchod, lle mae darparu addysg a chodi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod yn darparu gwybodaeth i blant a phobl ifanc am eu hawl i fod yn ddiogel mewn amgylchedd cyfarwydd yn ogystal â gwybodaeth am ble i fynd i ofyn am gymorth.

Cam-drin mewn perthynas yn yr ardegau

Nid yn unig y gall pobl ifanc brofi cam-drin domestig yn eu cartref teuluol, gallant hefyd brofi cam-drin yn eu perthnasoedd personol eu hunain. Mae diffiniad trawsadrannol Llywodraeth y DU o gam-drin domestig yn cynnwys profiadau unrhyw berson 16 mlwydd oed a throsodd.¹⁹

Mae'r data gan aelod-wasanaethau arbenigol VAWDASV Cymorth i Ferched Cymru yn awgrymu mai'r categori oedran 16-24 mlwydd oed yw'r ail gategori mwyaf cyffredin i fanteisio ar wasanaethau lloches ac mae'n cyfrif am 21% o'r holl oroeswyr sy'n manteisio ar

¹⁶ Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989) (UNRC)

¹⁷ <https://www.cypcs.org.uk/rights/uncrcarticles>

¹⁸ Llywodraeth Cymru; 'Plant a phobl ifanc: Hawl i weithredu' 2004: dyfynnwyd ar <http://gov.wales/docs/caecd/publications/090415rightstoactionen.pdf>

¹⁹ <https://www.gov.uk/guidance/domestic-violence-and-abuse#domestic-violence-and-abuse-new-definition>

wasanaethau yng Nghymru.²⁰ Felly, mae'n bwysig sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at adnoddau o ansawdd uchel sy'n codi ymwybyddiaeth am berthnasoedd treisiol a hyrwyddo perthnasoedd iach i leihau'r nifer o bobl ifanc sydd mewn sefyllfa o fod angen cefnogaeth frys.

Hefyd, mae ymchwil diweddar²¹ wedi nodi bod pobl ifanc eu hunain o blaid derbyn addysg yn ymwneud â rhyw a pherthnasoedd ac yn awyddus i gael hyn ar bwynt cynnar yn eu cyfnod pontio i oedran glasoed. O astudiaeth o bobl ifanc o dan 18 mlwydd oed:

- Roedd 40 y cant yn meddwl fod yr SRE roeddent wedi'i chael yn wael neu'n wael iawn;
- Dywedodd 61 y cant o fechgyn a 70 o ferched nad oeddent wedi cael unrhyw wybodaeth am berthnasoedd personol yn yr ysgol;
- Roedd 73 y cant yn teimlo y dylid addysgu SRE cyn 13 mlwydd oed.²²

Beth mae pobl ifanc yn ei ddweud?

Fel yr amlinellwyd uchod, mae corff o dystiolaeth yn dod i'r amlwg sy'n awgrymu bod plant a phobl ifanc eisiau derbyn gwersi a chefnogaeth perthnasol, o ansawdd uchel ar berthnasoedd iach.

Gall gwasanaethau arbenigol VAWDASV ddarparu'r gefnogaeth hon. Y diffiniad a dderbynnir o wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru yw:

Sefydliadau/gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n annibynnol o'r wladwriaeth (h.y. trydydd sector) a'u busnes craidd yw cefnogi goroeswyr a/neu gyflawnwyr a/neu blant a phobl ifanc sy'n profi effaith unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (h.y. trais a cham-drin rhywiol gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, cam-drin domestig, aflonyddu rhywiol, priodas dan orfod, anffurfio organau cenedlu benywod, ecsbloetio rhywiol gan gynnwys drwy'r diwydiant rhyw, masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern a'r hyn a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd').

Mae darparu gwasanaethau arbenigol VAWDASV sy'n cael eu harwain gan anghenion ac yn ymatebol i rywedd, gan gydnabod continwwm trais yn erbyn menywod a sicrhau bod ymyriadau a gwaith ataliol yn cysylltu VAWDASV gyda phatrymau ehangach o anghydraddoldebau rhyw ac anghydraddoldebau croestoriadol eraill, gan gynnwys ethnigrwydd, dosbarth, hunaniaeth rhywedd, oedran, gallu, rhywioldeb, crefydd a chred.

Mae dealltwriaeth a darpariaeth gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn seiliedig ar ddadansoddiad o VAWDASV yn ddibynnol ar rywedd ac yn achos a chanlyniad i

²⁰ <http://www.welshwomensaid.org.uk/annual-reports/2016-17/>

²¹ https://www.ippr.org/files/publications/pdf/young-people-sex-relationships_Aug2014.pdf

²² www.preventionplatform.org.uk

anhydraddoldeb rhwng menywod a dynion, sy'n croestorri gyda ffactorau fel ethnigrwydd, oedran, dosbarth, rhywioldeb ac anabledd i effeithio ar brofiadau o gam-drin a llwybrau adfer.²³ Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn cydnabod bod modd atal y mathau hyn o drais yn llwyr, maent digwydd i fenywod a merched yn anghymesur oherwydd eu bod yn fenywod ac yn ferched fel ffordd o gael rheolaeth gymdeithasol, sy'n cynnal ac yn atgynhyrchu cysylltiadau pŵer anghyfartal ac sy'n cyflwyno rhwystr i gyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer menywod a merched.

Mae'r gwasanaethau arbenigol VAWDASV hyn yn wahanol i wasanaethau 'cefnogi cyffredinol' o ran bod gan y sefydliadau/gwasanaethau fodel cyflwyno gwasanaeth cyfannol sy'n ymateb i rywedd a diwylliant, yn unol â fframweithiau safonau ansawdd y DU ar gyfer gwasanaethau o'r fath, ac sydd yn cael eu rhedeg gan y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, ac ar eu cyfer. Wrth wneud hynny maent yn cynnig profiad grymuso unigryw yn enwedig i fenywod a merched ac i gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, gan fod y grŵp cleient yn cael ei adlewyrchu mewn strwythurau staffio, rheoli a llywodraethu yn y sefydliadau hyn.

Yn 2016/2017 cafwyd 17,900 o alwadau i ChildLine ynghylch rhyw a pherthnasoedd, gan gynnwys datblygu rhywiol, newidiadau corfforol, atal cenhedlu, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STI) a phroblemau perthynas.²⁴ Rhyw ac iechyd rhywiol oedd y pwnc mwyaf poblogaidd ar fyrddau neges ChildLine ar gyfer 2017; a pherthnasoedd oedd yr ail bwnc mwyaf poblogaidd, allan o 61 pwnc.²⁵

Amlygodd ymchwil a gynhaliwyd gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (IPPR) fod:

- Dros 8 o bob 10 (86%) yn cytuno y dylid addysgu cyngor am ryw a pherthnasoedd mewn ysgolion.
- Dywedodd mwy na thraean (37%) y dylid addysgu cyngor am ryw a pherthnasoedd o ddechrau'r ysgol gynradd a dywedodd bron i hanner (49%) y dylid ei addysgu o ddechrau'r ysgol uwchradd.
- Roedd 7 o bob 10 (68%) o bobl ifanc 18 mlwydd oed yn credu y dyliai arbenigwr hyfforddedig addysgu SRE;
- Roedd 40% yn credu y dylai gael ei addysgu gan ymwelydd allanol nad yw'n addysgu yn yr ysgol, a dim ond 19% oedd yn credu y dylai gael ei addysgu gan athro o'r ysgol.²⁶

Mae'r ymchwil hefyd yn dangos bod bwloch sylweddol rhwng yr hyn mae pobl ifanc yn awyddus i ddysgu amdano, a'r hyn sy'n cael ei addysgu mewn gwirionedd.

²³Cefnogir y safbwynt hwn gan dystiolaeth gan y Cenhedloedd Unedig, Sefydliad Iechyd y Byd, Confensiynau Ewropeaidd a strategaethau'r DU.

²⁴ <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/annual-reports/not-alone-anymore-childline-annual-review-2016-17.pdf>

²⁵ <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/annual-reports/not-alone-anymore-childline-annual-review-2016-17.pdf>

²⁶ https://www.ippr.org/files/publications/pdf/young-people-sex-relationships_Aug2014.pdf

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddwyd adroddiad²⁷ yng Nghymru gan y Panel Arbenigol Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (SRE), yn amlinellu'r prif ganfyddiadau ac argymhellion yn dilyn asesiad o'r ddarpariaeth gyfredol ar gyfer SRE. Sefydlwyd y panel hwn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i helpu i lywio datblygiad y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn y dyfodol yng Nghymru.

Yr argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad yw:

1. Dylai Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ymgorffori newid enw o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd. Bydd y diffiniad newydd hwn yn defnyddio diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o 'rywioldeb', gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch.

Gwneud Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd ar gyfer pob ysgol (3-16 mlwydd oed) yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd yn argymhelliad 2.

Datblygu canllawiau statudol newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd yn argymhelliad 2.

2. Dylai'r Cwricwlwm SRE gael ei lywio gan yr egwyddorion craidd a'r meysydd thematig canlynol gyda deilliannau dysgu clir syn gallu datblygu i fodloni materion a gwybodaeth fiolegol, gymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol sy'n newid.

Mae'r egwyddorion craidd yn cynnwys: Hawliau a Chydraddoldeb rhwng y Rhywiau; Creadigol a Chwilfrydig; Grymuso a Thrawsnewidiol; Tebyg i Brofiad ac wedi'u Cychwynhyrchu; Cyfannol; Cynhwysol; Amddiffynnol ac Ataliol

3. Dylai'r Cwricwlwm SRE fod yn ddifyr, yn berthnasol ac yn ddatblygiadol briodol gyda llwybrau cynnydd clir ar gyfer dysgu a phrofiad.
4. Dylai ysgolion arloesol, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau arbenigol archwilio sut y gellir ymgorffori'r cwricwlwm SRE mewn 'dull ysgol gyfan'.
5. Dylai Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles gael statws cyfartal â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Hefyd, dylai SRE gael statws cyfartal â meysydd eraill yn Iechyd a Lles a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ehangach, gan gynnwys trefniadau asesu cadarn sy'n cefnogi llais y disgybl.
6. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu llwybr datblygu proffesiynol ar gyfer SRE, sy'n wahanol ar gyfer y cyfnodau addysg, i'w ymgorffori mewn Addysg Gychwynnol Athrawon a chysiau dysgu proffesiynol.

²⁷ <http://gov.wales/docs/dcells/publications/180104-future-of-the-sex-and-relationships-education-curriculum-in-wales-en.pdf>

Byddai'r llwybr hwn yn gyfle i wneud cynnydd pellach o ran eu datblygiad proffesiynol ac arbenigo mewn SRE, gan ganiatáu i'r gweithlu gyflawni cymhwyster lefel gradd Meistr mewn SRE.

7. Dylai pob ysgol gael arweinydd SRE sydd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol gyda mynediad at adnoddau a chanllawiau i gydlynu cwricwlwm sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau. Dylai'r oriau cyflwyno ar draws y cyfnodau allweddol fod yn gytras â phynciau eraill ar y cwricwlwm. Dylai'r rôl hon gynnwys ymgorffori SRE mewn dull ysgol gyfan.
8. Dylai pob Awdurdod Lleol, sy'n gweithio gyda Chonsortia, gael arweinydd SRE penodol i gynnig cefnogaeth allanol, cydlynu DPP a sicrhau cysondeb ac ansawdd gan gydnabod y gallai sefydliadau allanol arbenigol o ddarparwyr wedi'u hyfforddi'n addysgol, gan gynnwys y sector Addysg Uwch ac Addysg Bellach, wella cynnwys y cwricwlwm SRE a'i weithrediad mewn dull ysgol gyfan.
9. Dylai Estyn adeiladu ar newidiadau diweddar i'r fframwaith arolygu i ystyried arolygu SRE fel rhan o gydweddu trefniadau arolygu newydd â'r cwricwlwm newydd.
10. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu marc rhagoriaeth SRE i amlygu dulliau ysgol gyfan rhagorol mewn perthynas â chydaddoldeb a thegwch rhwng y rhywiau ac SRE.
11. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Parth Hwb SRE i gefnogi SRE ansawdd uchel mewn ysgolion ac i wasanaethu rhwydwaith ymchwil, arfer a hyfforddiant SRE, wedi'i anelu at hwyluso darparu cyfleoedd ymchwil a hyfforddiant a chreu cymuned ymarfer SRE yng Nghymru.

Elfen bwysig arall wrth ystyried perthnasoedd iach yw effaith technoleg ddigidol. Mae'r bwlch gwybodaeth rhwng dealltwriaeth person ifanc o dechnoleg a gwybodaeth y rhan fwyaf o oedolion yn ehangach nag erioed o'r blaen. Mae technoleg ddigidol yn datblygu mor gyflym fel y gallwn deimlo ei bod yn amhosibl dal i fyny gyda'r datblygiad. Erbyn hyn, mae gan bobl ifanc fwy o lwyfannau nag erioed o'r blaen i gyfathrebu gyda'i gilydd, a chyfleoedd i rannu bob manylyn o'u bywyd. Mae tirlun y cyfryngau cymdeithasol yn rhoi mwy o bwysau cymdeithasol ar blant a phobl ifanc ac yn eu gwneud yn agored i risgiau fel bwlio, ecsbloetio a cham-drin 24 awr y dydd, yn ogystal â mynediad hawdd at gynnwys sydd wedi'i greu ar gyfer oedolion. I raddau helaeth nid yw cynnwys yn cael ei reoleiddio ac mae nifer o bobl ifanc ar-lein heb unrhyw oruchwyliaeth gan oedolyn, neu ychydig o oruchwyliaeth yn unig, gan eu gadael i ganfod eu ffordd i mewn i fyd cymhleth ar eu pen eu hunain. Y llynedd (2016/17) cynhaliodd ChildLine 12,200 o sesiynau cwnsela gyda phobl ifanc oedd eisiau siarad am ddiogelwch a cham-drin ar-lein, 9% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Secstio oedd

y wybodaeth a'r pynciau cyngor mwyaf poblogaidd ar wefan ChildLine am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.²⁸

Felly mae'n hollbwysig fod gan pobl ifanc fynediad at wybodaeth gywir o ansawdd uchel am sut i reoli diogelwch ar-lein. Dylai adnoddau a gwybodaeth fod ar gael i'w rhieni a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw i'w haddysgu a'u galluogi i gefnogi pobl ifanc gyda bywyd ar-lein.

Casgliad ac Argymhellion

I gloi, mae addysg SRE a pherthnasoedd iach yn offeryn pwerus ar gyfer gwaith atal sylfaenol cyffredinol o ran VAWDASV. Mae hefyd yn amlwg bod llawer o gynnydd wedi'i wneud gydag addysg perthnasoedd iach ar draws Cymru yn y blynyddoedd diwethaf. Mae datblygiad fframwaith polisi a deddfwriaethol newydd ar gyfer hyn yn cynnig sylfaen gadarn i adeiladu arni wrth i newidiadau gael eu cyflwyno. Gallwn weld fod gwaith gwych wedi'i wneud ledled Cymru, mewn perthynas â gwasanaethau arbenigol, ac ym maes addysg. Mae agweddau yn gadarnhaol ac mae ymrwymiad clir i fynd i'r afael â materion gyda'n gilydd.

Bydd Cymorth i Ferched Cymru yn parhau i nodi a gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ymwybyddiaeth a rhoi'r dull addysg gyfan a'r *Canllaw Arfer Da* ar waith.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio i sicrhau bod mynediad at adnoddau cywir o ansawdd da ynghylch diogelwch ar-lein a bywyd digidol ar gael ac yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc, rhieni a staff addysg.

Arfer addawol mewn rhaglenni atal sylfaenol sydd ar gael yng Nghymru

Mae nifer o raglenni atal sylfaenol cyffredinol yn cael eu cyflwyno ledled Cymru, sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o oedrannau gydag amcanion amrywiol. Isod mae rhai rhaglenni sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ar gyfer plant a phobl ifanc.

²⁸ <https://www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/annual-reports/not-alone-anymore-childline-annual-review-2016-17.pdf>

Cymorth i Ferched Cymru: Rhaglen Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (S.T.A.R.) Pobl Ifanc (11-13 ac 14-25)

Mae tîm plant a phobl ifanc Cymorth i Ferched Cymru wedi datblygu dwy raglen atal: un ar gyfer pobl ifanc 11-13 mlwydd oed, a'r llall ar gyfer pobl ifanc 14-25 mlwydd oed. Mae'r rhain ar ffurf cwrs 8 wythnos, ond wedi'u llunio fel 8 sesiwn unigol, y gellir eu cyflwyno fel cwrs neu sesiynau unigol yn dibynnu ar angen. Ymhlith y pynciau mae: perthnasoedd parchus, cam-drin domestig, stereoteipiau rhywedd, a chydysyniad. Rhyw, ffonau a'r rhyngwrwd (11-13); secstio, pornograffi (14-25); camfanteisio rhywiol, canfyddiad (14-25); a gwydnwch (11-13). Mae rhaglenni S.T.A.R ar gael i weithwyr proffesiynol sydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc, ynghyd â hyfforddiant a chefnogaeth.

<http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/children-and-young-people/>

Hafan Cymru – Prosiect Sbectrwm

Fel rhan o'r ymgyrch gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â VAWDASV, mae Prosiect Sbectrwm Hafan Cymru wedi'i ariannu i godi ymwybyddiaeth am gam-drin domestig a materion cysylltiedig yn holl ysgolion uwchradd a chynradd Cymru.

Cyflwynir y sesiynau gan athrawon cymwysedig, ac maent ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r sesiynau'n draws-gwricwlaidd ac wedi'u llunio i hyrwyddo trafodaeth yn hytrach na datgelu. Mae pob sesiwn yn dod i ben gyda sut i gael gwybodaeth bellach a chefnogaeth.

Mae'r Prosiect hefyd yn cyflwyno hyfforddiant ar gyfer holl staff ysgolion a rhieni ar:

- Codi ymwybyddiaeth am gam-drin domestig
- Deall effeithiau cam-drin domestig ar blentyn
- Dull ysgol gyfan i fynd i'r afael â VAWDASV.

Hefyd, gall y prosiect gynnal ymgynghoriad/archwiliad i gynorthwyo ysgolion gyda bodloni gofynion newydd Fframwaith Estyn mewn perthynas ag Addysg Perthnasoedd Iach.

<http://spectrumproject.co.uk/>

Calan DVS – Ni Ddylai Perthynas Frifo

Mae Calan DVS yn sefydliad cymorth arbenigol ar gyfer cam-drin domestig yn Ne Cymru a ffurfiwyd ar 1 Gorffennaf 2012. Yn 2014, derbyniodd Calan DVS gontract pum mlynedd gan Gronfa'r Loteri Fawr yng Nghymru i ddatblygu a darparu gwasanaethau cymorth ac ymyrraeth gynnar cyfannol a chydgyssylltiedig ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu hamlygu i gam-drin domestig a thrais. Mae'r prosiect arloesol hwn; o'r enw BRAVE EIP (Adeiladu Gwytnwch yn erbyn Cam-drin, Trais a Chamfanteisio) wedi'i gyflwyno ar draws Castell-nedd Port Talbot a Phowys.

Cynhyrchiad Theatr 'Addysg Cyfoedion' yw Ni Ddylai Perthynas Frifo, a ddatblygwyd ym Mhowys.

Prif amcan y cynhyrchiad yw defnyddio theatr fel ffordd i addysgu pobl ifanc am y mathau gwahanol o gam-drin domestig a sut i adnabod arwyddion o berthnasoedd iach ac afiach. Mae'r sgript yn cael ei actio gan gast ifanc yn bwrpasol i'w galluogi i ganfod y pwnc drostynt eu hunain ac yn cyflwyno'r golygfeydd mewn ffordd y gall y gynulleidfa ymgyfarwyddo ag ef.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: <http://www.braveeip.org.uk/>

Resolve it: Criw Craff

Mae'r Criw Craff wedi bodoli ledled Cymru ers nifer o flynyddoedd gyda lefelau amrywiol o lwyddiant. Gwahoddir amrywiaeth eang o sefydliadau i fynychu digwyddiadau dyddiol, yn aml wedi'u lleoli mewn ysgol neu gymuned benodol i gymryd rhan mewn diwrnod carwsél o negeseuon diogelwch. Fel arfer mae asiantaethau'n cynnwys Cymorth i Ferched, y Gwasanaeth Tân, Ambiwlans St. John, Network Rail.

Mae'r Criw Craff yn dibynnu i raddau helaeth ar ysgolion sy'n barod i gymryd rhan ac asiantaethau â chapasiti i gael eu cynnwys. Oherwydd enw da hirsefydlog y digwyddiadau hyn, yn gyffredinol mae ysgolion yn hoffi cymryd rhan a chyflwynir amrywiaeth eang o negeseuon diogelwch i grŵp blwyddyn cyfan mewn diwrnod. Mae sesiynau wedi'u hanelu at flwyddyn 6 neu 7 gyda'r sesiynau yn para rhwng 10 a 25 munud, gan ddibynnu ar nifer yr asiantaethau sy'n cymryd rhan.

<https://www.resolveitcic.co.uk/crucial-crews/>

Ymgyrch 'Dyma Fi' gan Lywodraeth Cymru

Mae'r ymgyrch DYMA FI wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth gyda'n rhanddeiliaid arbenigol a goroeswyr sydd yn rhan o Grŵp Cyfathrebu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol: **Cymorth i Ferched Cymru, Bawso, Cymru Ddiogelach, Ymddiriedolaeth Goroeswyr (Sector Trais Rhywiol), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Prifysgol Caerdydd, yr Heddlu a Gwasanaeth Carchar a Phrawf ei Mawrhydi**

Beth yw'r broblem?

Mae syniadau hen ffasiwn yn bodoli o hyd ynglyn â sut y dylem ymddwyn a pha ymddygiad a chyflawniadau y dylem eu disgwyl o ganlyniad, gan roi pwysau ar bobl i gydymffurfio â 'normau' cymdeithas.

Gall ein rhywedd effeithio ar ba mor ddiogel y teimlwn, lle y teimlwn y gallwn fynd, pa swydd y teimlwn y gallwn wneud cais amdani a disgwyliadau pobl eraill ohonom.

Mae ymgyrch DYMA FI yn cydnabod ein bod ni i gyd yn gymaint mwy na'n rhywedd yn unig.

Mae'r ymgyrch yn nodi bod rhaid i ni gydnabod y cysylltiad rhwng rhywedd a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'n cydnabod y gallai'r pwysau i gydymffurfio â'r anghydraddoldeb rhwng y rhywiau sy'n amlwg yn ein cymdeithas fod yn achos ac yn ganlyniad i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae pawb yng Nghymru yn haeddu byw heb ofni am stereoteipiau rhywedd - i fod yn pw y bynnag maen nhw am fod a chyrraedd eu potensial llawn.

<http://livefearfree.gov.wales/campaigns/this-is-me?lang=en>


Pecyn Cymorth Agenda

Mae Agenda yn becyn cymorth adnoddau sydd wedi'i greu gan Cymorth i Ferched Cymru, Prifysgol Caerdydd, NSPCC Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru mewn cydweithrediad â phobl ifanc ar gyfer pobl ifanc.

'Teclyn ar-lein gyda chydraddoldeb ac amrywiaeth, hawliau plant a chyfiawnder cymdeithasol wrth ei wraidd'

Agenda yw canllaw cenedlaethol cyntaf Cymru ar gyfer pobl ifanc a sut y gallant wneud i berthnasoedd cadarnhaol gyfrif yn ddiogel ac yn greadigol.

<http://agenda.wales/>



Bydd Cymorth i Ferched Cymru yn parhau i weithio i wella diogelwch plant sydd wedi profi cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn derbyn menywod drwy weithio gyda goroeswyr a'u plant i gael eu clywed. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch y papur briffio hwn, mae croeso i gysylltu â'r canlynol:

Ami Willcox

Swyddog Atal Cenedlaethol

AmiWillcox@welshwomensaid.org.uk

0292054155